Estyn
Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# HMS Statudol mewn ysgolion

## Mehefin 2013

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Llywodraeth Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **2** |
| **Argymhellion** | **4** |
| **1. Amseru diwrnodau HMS yn ystod y flwyddyn ysgol** | **5** |
| **2. Trefnu a chyflwyno HMS** | **6** |
| **3. Ystod y testunau HMS a'r pwyslais ar lythrennedd a rhifedd** | **10** |
| **4. Arweinyddiaeth a rheolaeth HMS** | **15** |
| **5. Effaith HMS ar wella ysgolion a safonau** | **20** |
| **Atodiad 1: sail y dystiolaeth** | |
| **Atodiad 2: cyfeiriadau** | |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn mewn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2012-2013. Mae'r adroddiad yn archwilio'r defnydd o'r pum niwrnod statudol a neilltuir ar gyfer hyfforddiant mewn swydd (HMS – acronym ar gyfer Hyfforddiant mewn Swydd) mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig. Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos o arfer orau.

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar dystiolaeth o ymweliadau â 15 o ysgolion, a chraffu ar ddata a chanlyniadau arolygu. Anfonwyd yr holiadur yn ôl i Estyn gan 76 o ysgolion a naw awdurdod lleol. Gweler Atodiad 1 am fanylion.

Mewn ysgolion, mae datblygiad proffesiynol staff yn cynnwys ystod eang o hyfforddiant. Canolbwyntia'r adroddiad hwn ar ddefnyddio'r diwrnodau HMS statudol. Nid yw'n archwilio agweddau eraill ar ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a gynhelir mewn ysgolion. Mae adroddiadau blaenorol gan Estyn wedi canolbwyntio ar lawer o'r agweddau hyn ar DPP. Ceir cyfeiriadau at yr adroddiadau hyn yn Atodiad 2.

Bwriedir yr adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Gall hefyd fod o ddiddordeb i hyfforddwyr athrawon ac i awdurdodau addysg esgobaethol eglwysig.

## Cefndir

Mae diwrnod HMS yn un o gyfres o bum niwrnod pan fydd staff yn cael hyfforddiant ac ni fydd disgyblion yn mynychu'r ysgol. Rhaid i ysgolion a gynhelir fod ar agor i addysgu disgyblion am hyd at 190 diwrnod bob blwyddyn academaidd. Mae'n ofynnol i athrawon fod ar gael i weithio am 195 diwrnod bob blwyddyn academaidd, sy'n cynnwys y pum niwrnod HMS statudol.

Mae ymchwil ac arolygu wedi nodi bod datblygiad proffesiynol a hyfforddiant staff yn bwysig iawn ym mywyd ysgolion. Mae datblygiad proffesiynol a hyfforddiant effeithiol yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol a phersonol staff ac at welliannau mewn addysgu a dysgu.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ddefnyddio o leiaf un diwrnod HMS yn 2012-2013 i ganolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd. Dylai ysgolion hefyd roi sylw i fedrau llythrennedd a rhifedd mewn meysydd hyfforddiant eraill, ac i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Diben y ffocws hwn yw helpu ysgogi gwelliant mewn ysgolion a chefnogi'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer addysg yng Nghymru.

## Prif ganfyddiadau

1 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae'r pum niwrnod HMS statudol yn rhan anhepgor o strategaeth fwy ar gyfer datblygu staff, sy'n cynnwys trywyddau eraill fel grwpiau gorchwyl â ffocws, cymunedau dysgu proffesiynol a chynhyrchu arweiniad i'w ledaenu'n ehangach ymhlith athrawon ac ysgolion clwstwr.

2 Mae'r pum niwrnod HMS statudol eu hunain yn gyfnod amser gwerthfawr y bydd ysgolion yn eu neilltuo i ddatblygiad proffesiynol staff. Mae ysgolion yn defnyddio diwrnodau HMS statudol i gynnig hyfforddiant sy'n cyfrannu at wella ysgolion yn bennaf, ond nid yw rheolwyr yn mynd ati'n systematig i fonitro ei effaith ar yr addysgu a'r dysgu.

3 Mewn llawer o'r ysgolion a archwiliwyd yn yr arolwg, canfuom gysylltiadau cadarn rhwng ffocws y gweithgareddau HMS a'r blaenoriaethau a nodwyd yn adroddiadau hunanarfarnu'r ysgolion, cynlluniau gwella, ac o drefniadau rheoli perfformiad.

4 Mae rhaglenni HMS yn cwmpasu amrywiaeth fawr o destunau, fel asesu a safoni, datblygu'r cwricwlwm a diogelu. Dros y pum mlynedd diwethaf, llythrennedd sydd wedi cael y sylw mwyaf yn ystod HMS, ac mae llawer o ysgolion wedi canolbwyntio ar addysgu a dysgu darllen ac ysgrifennu.

5 Yn 2012-2013, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ganolbwyntio ar lythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad yn ystod eu diwrnodau HMS. Mae pob ysgol bron yn bwriadu defnyddio un diwrnod HMS o leiaf i ganolbwyntio ar lythrennedd. Mae mwyafrif o ysgolion wedi nodi llythrennedd yn eu cynlluniau HMS. Dim ond lleiafrif o ysgolion sydd â chynlluniau i ganolbwyntio ar leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad yn 2012-2013.

6 Nid yw lleiafrif bach o ysgolion yn defnyddio HMS yn ddigon effeithiol nac yn cael y budd pennaf o'r hyfforddiant. Yn yr ysgolion hyn, nid yw HMS yn cyfrannu'n llawn at wella ysgolion am nad oes cyswllt ddigon clir rhyngddo â blaenoriaethau staff, ysgolion na blaenoriaethau cenedlaethol. Yn aml, nid yw arfer HMS lwyddiannus yn cael ei lledaenu digon yn yr ysgol a thu hwnt. Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid yw amser HMS yn cael ei dreulio ar hyfforddiant, ond yn hytrach ar weithgareddau amhriodol fel trefnu ystafelloedd dosbarth ac arddangosfeydd. Yn yr ysgolion lle mae hyn yn digwydd, ychydig y mae diwrnodau HMS yn ei gyfrannu at ddatblygiad proffesiynol staff neu at wella ysgolion.

7 Yn gyffredinol, mae ysgolion yn ystyried yn ofalus pa ddiwrnodau maent yn eu dewis ar gyfer HMS, fel eu bod yn cynnig cyfleoedd addas ar gyfer hyfforddiant staff, tra hefyd yn tarfu cyn lleied ag y bo modd ar ddysgu'r disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnal diwrnod HMS ar ddechrau'r flwyddyn ysgol. Mae'n dod yn fwyfwy cyffredin i ysgolion gynllunio cyfres o sesiynau ar ôl ysgol neu sesiynau gyda'r hwyr i'r staff yn lle un neu ddau ddiwrnod HMS. Mae'r diwrnodau hyn wedyn yn cael eu nodi fel diwrnodau cau ar gyfer staff a disgyblion, ar ddiwedd tymor yr haf yn aml.

8 Mewn llawer o ysgolion, mae trefnu a chyflwyno HMS yn effeithiol yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad proffesiynol staff. Mae llai o ysgolion yn defnyddio darparwyr

hyfforddiant allanol neu arbenigwyr addysgol i ddarparu HMS nag o'r blaen, ac mae mwy a mwy o ysgolion yn defnyddio darpariaeth fewnol. Mae'r dull hwn yn gwneud defnydd da o arbenigedd y staff addysgu a'r staff cymorth, ac yn helpu cynnal ac adeiladu gallu i wella. Hefyd, mae llawer o ysgolion yn cydweithredu ag ysgolion eraill i rannu arfer dda a chostau hyfforddiant.

9 Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth ar HMS ei hun yn dda mewn llawer o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn sicrhau dull cydlynus trwy gysylltu'r HMS â blaenoriaethau o reoli perfformiad, hunanarfarnu a'r cynllun gwella ysgol. O ganlyniad, mae'r hyfforddiant yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad proffesiynol staff ac at wella ysgolion.

10 Mae amodau tâl a gwasanaeth staff cymorth dysgu yn amrywio rhwng ysgolion yn aml. O ganlyniad, nid yw pob un o'r staff hyn yn mynychu sesiynau HMS gyda'r athrawon. Dim ond mewn lleiafrif o ysgolion y mae staff cymorth dysgu'n cael eu cynnwys. Mewn ychydig o ysgolion, mae'r staff cymorth yn gysylltiedig â chynllunio ac arwain HMS, ac mae hyn yn datblygu eu medrau proffesiynol ymhellach ac yn gwneud defnydd da ohonynt.

11 Mewn llawer o ysgolion, nid yw effaith HMS yn cael ei harfarnu digon. Yn aml, er bod rhywfaint o arfarnu'n cael ei wneud ar ddiwedd y diwrnod hyfforddiant, nid yw ei effaith ar addysgu a dysgu dros amser yn cael ei monitro ymhellach. Ychydig o arfarniadau sy'n dadansoddi effaith yr hyfforddiant ar gynnydd a chyflawniad disgyblion.

12 Mae llawer o awdurdodau lleol yn cyfrannu'n dda at HMS ysgolion. Yn gyffredinol, maent yn darparu hyfforddiant o ansawdd da ac yn helpu ysgolion i rwydweithio a chydweithio ag ysgolion eraill. Ynghyd ag ysgolion, nid yw mwyafrif o awdurdodau lleol yn gwybod digon am effaith HMS. Nid ydynt yn casglu digon o wybodaeth am ba un a yw HMS yn arwain at welliannau o ran gwybodaeth a medrau staff, deilliannau disgyblion, newidiadau trefniadol neu a yw'n cynnig gwerth am arian.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 ganolbwyntio mwy ar flaenoriaethau cenedlaethol mewn gweithgareddau HMS, fel mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad;

A2 gwneud yn siŵr bod cysylltiad agos rhwng yr HMS a'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer gwella ysgolion;

A3 chwilio am ffyrdd o gynnwys staff cymorth dysgu mewn HMS fel eu bod yn gallu cyfrannu'n llawn at wella ysgolion; a

A4 gwella arfarnu HMS trwy fonitro ei effaith ar berfformiad staff a deilliannau disgyblion.

**Dylai awdurdodau lleol:**

A5 gynorthwyo ysgolion wrth fonitro ac arfarnu effaith HMS; a

A6 chasglu gwybodaeth am HMS effeithiol a'i ledaenu i bob ysgol.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A7 ddarparu arweiniad i helpu ysgolion i fonitro ac arfarnu effaith HMS ar berfformiad disgyblion.

## 1. Amseru diwrnodau HMS yn ystod y flwyddyn ysgol

13 Yn gyffredinol, mae staff ysgolion yn rhoi ystyriaeth ofalus i amseru'r pum niwrnod HMS er mwyn cynnig cyfleoedd addas ar gyfer hyfforddiant staff a lleihau tarfu ar ddysgu'r disgyblion. Mae llawer o ysgolion yn penderfynu ar ddyddiadau diwrnodau HMS eu hunain. Mewn ysgolion eraill, mae diwrnodau HMS yn cael eu cynllunio ar y cyd â'r awdurdod lleol. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd o ran gallu penderfynu ar ddyddiadau ar gyfer hyfforddiant ysgol gyfan. Mae'r hyblygrwydd hwn yn ddefnyddiol, am ei fod yn galluogi ysgolion i ddewis amserau sy'n gweddu orau i'w hanghenion.

14 Mae diwrnodau HMS yn digwydd ym mhob un o dri thymor y flwyddyn ysgol fel arfer, ac o gwmpas dechrau'r tymor yn gyffredin. Er enghraifft, yn 2012, cynhaliodd fwyafrif o ysgolion o leiaf un diwrnod HMS cyn i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol ym Medi. Mae mwyafrif o ysgolion yn aml yn cynnal dau ddiwrnod HMS yn olynol er mwyn rhoi sylw i raglen hyfforddiant hwy i staff. Mae ychydig o ysgolion y cynnal diwrnodau HMS ar ddiwedd tymhorau neu'r flwyddyn ysgol. Gall diwrnodau HMS ar ddiwedd y flwyddyn ysgol fod yn llai llwyddiannus am nad yw staff yn gallu rhoi eu hyfforddiant ar waith yn syth. Mewn lleiafrif bach o ysgolion, mae diwrnodau HMS yn cael eu cynnal yn ystod y tymor, er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn ceisio osgoi hyn. Yn gyffredinol, pan fydd hyn yn digwydd, y rheswm am hynny yw trefnu'r HMS pan fo darparwr hyfforddiant allanol ar gael neu i rannu diwrnodau hyfforddiant gydag ysgolion eraill.

15 Mae'n dod yn fwyfwy cyffredin i fwyafrif o ysgolion ddynodi sesiynau ar ôl ysgol neu sesiynau gyda'r hwyr yn lle un neu ddau o'r pum niwrnod HMS. Yn ymarferol, golyga hyn fod ysgolion yn nodi diwrnod pan fydd yr ysgol ar gau i'r staff a'r disgyblion, yn yr haf fel arfer. Mae'r hyfforddiant staff a fyddai wedi digwydd ar y diwrnod hwn yn cael ei gynnal ar ôl ysgol dros chwech neu saith wythnos, a hynny yn ystod tymor yr hydref a thymor y gwanwyn yn aml.

Bydd sesiynau ar ôl ysgol yn para rhyw 60 i 90 munud fel arfer. Un ystyriaeth bwysig ar gyfer sesiynau gyda'r hwyr yw bod digon o amser ar gael i roi sylw i'r rhaglen hyfforddiant gyfan. Hefyd, ni ddylai'r rhaglen sesiynau hyfforddiant roi baich gormodol ar staff ar ôl diwrnod addysgu prysur. Lle'r oedd sesiynau gyda'r hwyr wedi'u cynnal yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, adroddodd y staff eu bod yn hoffi amseriad yr hyfforddiant hwn. Gan fod yr hyfforddiant yn mynd ymlaen trwy gydol y tymor, roeddent yn ei weld yn arbennig o ddefnyddiol wrth weithredu ac arfarnu dulliau a strategaethau newydd.

16 Mae llawer o ysgolion yn cynllunio'r pum niwrnod HMS ymlaen llaw fel arfer, ac yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ddechrau'r flwyddyn ysgol. Mae rhyw un o bob saith ysgol yn nodi nifer o ddiwrnodau HMS ymlaen llaw, ond nid y cyfan ohonynt. Mewn mwyafrif o'r ysgolion hyn, mae rhesymau priodol pam nad yw dyddiadau ymlaen llaw wedi'u penderfynu, fel disgwyl am ddarparwr hyfforddiant allanol i gytuno dyddiad ar gyfer hyfforddiant. Mewn ychydig o ysgolion, mae'r diffyg cynllunio ymlaen llaw ar gyfer HMS wedi arwain at beidio â pharatoi'n ddigonol ar gyfer yr hyfforddiant, rhybudd byr am ddyddiadau cau ysgolion i lywodraethwyr, rhieni a disgyblion, ac ar achlysuron prin, diffyg niferoedd yn manteisio ar yr hawl statudol i hyfforddiant.

17 Yn gynyddol, mae ysgolion, gyda chymorth awdurdodau lleol, yn cynllunio diwrnodau cau ar y cyd fel y gallant gydweithio ag ysgolion eraill a rhannu costau hyfforddiant. Mae'r dull hwn yn cynnig cyfleoedd i rannu arfer dda. Mae diwrnodau cau ar y cyd hefyd yn gymorth i rieni yn aml sydd â phlant mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Mae ychydig o awdurdodau lleol yn penderfynu ar ddiwrnodau HMS ysgolion fel rhan o'u trefniadau ar gyfer gwella ysgolion. Er enghraifft, roedd pob ysgol yng Nghyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Sir Ceredigion ar gau ar gyfer HMS ar yr un diwrnod yn nhymor yr hydref 2012. Fe wnaeth staff fynychu hyfforddiant a ddarparwyd gan bob awdurdod.

18 Mae llawer o ysgolion ac awdurdodau lleol:

- yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion staff a disgyblion wrth gynllunio amseriad yr hyfforddiant;
- yn defnyddio'r pum niwrnod HMS i gynorthwyo gwelliant staff ac ysgol;
- yn sicrhau, pan fydd sesiynau gyda'r hwyr yn cael eu cynnal, eu bod yn darparu achlysuron addas i gefnogi datblygiad proffesiynol; ac
- yn hysbysu staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion am ddiwrnodau cau mewn modd amserol.

## 2. Trefnu a chyflwyno HMS

19 Mewn llawer o ysgolion, mae trefnu a chyflwyno HMS yn effeithiol yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol staff a gwella ysgolion. Mae ysgolion, yn gynyddol, yn defnyddio'u staff eu hunain i arwain yr hyfforddiant yn ystod diwrnodau HMS.

20 Mewn ysgolion effeithiol, mae arweinwyr yn ymwybodol mai'r grym mwyaf pwerus ar gyfer newid yn aml yw eu staff yn hunain. Y rheswm am hyn yw bod dealltwriaeth fanwl gan y staff hyn o anghenion yr ysgol, maent yn aml yn cael eu cydnabod fel 'arbenigwyr' yn yr ysgol a thu hwnt, a gallant felly fod yn awdurdodol ac yn argyhoeddiadol i bobl eraill. Gall defnyddio darpariaeth fewnol ar gyfer hyfforddiant helpu ysgolion hefyd i adeiladu a chynnal eu gallu i wella. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn yn bosibl ym mhob achos, fel ysgolion yn y categori mesurau arbennig neu ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt, gan nad yw'r arbenigedd gan y staff i ddarparu hyfforddiant mewnol i staff eraill. Yn aml, mae angen i'r ysgolion hyn ddefnyddio darparwyr allanol ar gyfer HMS.

21 Mae llai o ysgolion nag o'r blaen yn defnyddio gwasanaethau arbenigwyr addysgol allanol neu sefydliadau hyfforddi yn rheolaidd i ddarparu HMS i'w staff. Mae ysgolion yn dal i ddefnyddio hyfforddwyr allanol, megis pan fydd staff wedi prynu adnoddau newydd gan sefydliad, gan gynnwys offer TGCh neu gynlluniau darllen ac ysgrifennu. Y rheswm rhannol am y newid hwn yw costau cynyddol a sylweddol darparwyr hyfforddiant allanol, ond hefyd am fod ysgolion eisiau i'r hyfforddiant gynnwys ffocws manwl ar eu hanghenion penodol. Mae tystiolaeth ymchwil ac arolygu yn dangos nad yw sesiynau hyfforddiant 'un tro'n unig' yn ddigon llwyddiannus bob amser o ran newid a gwella arfer.

22 Serch hynny, mae angen cyfraniad pobl eraill ar ysgolion ar brydiau, er mwyn ysgogi newid neu ddarparu rhyw hyfforddiant arbenigol iawn. Er enghraifft, gall ysgol ddefnyddio ymgynghorydd awdurdod lleol i egluro agweddau ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, neu ddefnyddio arbenigwr i hyfforddi staff mewn ysgol arbennig ar faterion iechyd a diogelwch penodol.

23 Mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn cytuno bod HMS yn cael ei gyflwyno'n fwyaf llwyddiannus pan fydd dulliau fel seminarau, gweithdai a gwersi arddangos yn cael eu defnyddio i gynnwys staff yn weithredol. Mae'r farn hon yn cydsynio â thystiolaeth arolygu ac ymchwil. Mewn llawer o ysgolion, mae dulliau cyflwyno HMS wedi symud i ffwrdd oddi wrth gyflwyniadau hir i'r ysgol gyfan i sesiynau byrrach sy'n rhoi sylw i amrywiaeth o destunau, ac sy'n cynnwys y staff yn weithredol. Mae dulliau dysgu gweithredol yn dod â buddion i staff yn yr un ffordd â disgyblion. Mae astudiaeth achos 1 isod yn dangos sut mae ysgol uwchradd yn defnyddio seminarau i ddarparu rhaglen HMS ddynamig i'r staff.

**Astudiaeth Achos 1**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gyfun y Pant, Pontyclun, yn ysgol gyfun gymysg, cyfrwng Saesneg i ddysgwyr 11-18 oed, a gynhelir gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Mae tua 1,250 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae 12% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, canran is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 17%.

**Strategaeth**

Mae uwch reolwyr yn rhoi pwyslais cryf iawn ar ddatblygiad proffesiynol pob aelod o'r staff. Maent yn sicrhau bod y staff yn cael amrywiaeth fawr o gyfleoedd hyfforddi, gan gynnwys HMS, cyrsiau allanol, arsylwi gan gymheiriaid ac adolygiadau adrannol. O ganlyniad, mae cyfleoedd da iawn i'r staff ddatblygu'u medrau proffesiynol, gan gynnwys paratoi ar gyfer eu rolau arweinyddiaeth a rheolaeth, a'u datblygu. Mae'r strategaeth hon yn sicrhau bod y staff yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau i'r ysgol.

**Gweithredu**

Bob blwyddyn, mae uwch reolwyr yn ystyried blaenoriaethau'r ysgol, anghenion hyfforddi unigol ac awgrymiadau gan staff, er mwyn cynllunio ystod eang o seminarau DPP ar gyfer HMS. Trwy'r broses hon, maent yn darparu rhaglen o ugain seminar DPP. Mae'r rhaglen yn un ddynamig a phroffesiynol iawn, a chydnabyddir ei bod yn werthfawr i'r ysgol. Mae'r staff yn dewis deg seminar o'r rhaglen seminarau i'w mynychu dros y flwyddyn academaidd yn ystod sesiynau gyda'r nos, a gynhelir yn lle diwrnodau HMS.

Mae'r testunau yn y rhaglen HMS yn amrywiol iawn, ac wedi cynnwys codi cyflawniad bechgyn, datblygu rolau arweinyddiaeth a rheolaeth, dysgu sy'n ystyriol o ddyslecsia, athroniaeth ar gyfer plant a defnyddio cynorthwywyr cymorth dysgu yn effeithiol. Mae'r dull a fabwysiedir gan yr ysgol yn helpu darparu model hyfforddi sy'n

diwallu anghenion proffesiynol staff ar gyfnodau gwahanol o'u gyrfa. Yn gyffredinol, staff o fewn yr ysgol, gan gynnwys cynorthwywyr cymorth ddysgu, sy'n arwain y sesiynau hyfforddi. Ar ôl yr hyfforddiant, mae'r staff yn llenwi ffurflen arfarnu, sy'n helpu arweinwyr a rheolwyr i sicrhau bod y rhaglen yn berthnasol ac yn briodol i flaenoriaethau'r ysgol, ac yn diwallu anghenion hyfforddi'r staff hefyd.

**Canlyniadau**

Mae cysylltiad cadarn rhwng y rhaglen seminarau HMS a blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae cysylltiad clir rhwng y rhaglen hefyd ag anghenion proffesiynol y staff, ac mae'n rhoi rhywfaint o ryddid proffesiynol iddynt dros agweddau ar eu hyfforddiant. Mae'r cyfleoedd da i staff gynllunio ac arwain sesiynau DPP yn cefnogi datblygiad darpar arweinwyr. Canfu'r arolygiad diweddar fod diwylliant cadarn iawn o fod yn gymuned ddysgu yn yr ysgol. Roedd yr arolygwyr o'r farn fod staff yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eithriadol o weithgareddau datblygiad proffesiynol. Mae'r gwaith hwn wedi dylanwadu ar berfformiad yr ysgol. Yn yr adroddiad arolygu ar yr ysgol, barnwyd bod safonau a'r addysgu yn rhagorol.

24 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer gynyddol o ysgolion wedi gweithio gyda'i gilydd ar ddiwrnodau HMS ar y cyd, gan arwain yn aml at ddatblygu cymunedau dysgu proffesiynol. Pan fo ysgolion yn cydweithio ag ysgolion eraill ar gyfer HMS, mae'r staff yn elwa ar rannu gwybodaeth ac arfer dda. Gall cydweithio rhwng ysgolion greu buddion sylweddol i'r staff a disgyblion. Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos sut yr aeth teulu o ysgolion, yn cynnwys ysgol uwchradd a'i deg o ysgolion cynradd partner, ati i rannu HMS er mwyn sicrhau gwelliannau i bawb.

**Astudiaeth Achos 2**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Uwchradd Bryngwyn yn ysgol gymunedol gymysg ar gyfer disgyblion 11-16 oed, a gynhelir gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Lleolir yr ysgol yn Nafen, ar ochr ogledd-ddwyreiniol Llanelli, a daw ei disgyblion o rannau o ganol y dref a'r pentrefi cyfagos. Mae 891 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae gan 19% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 17%.

**Strategaeth**

Mae'r ysgol yn werthfawrogol o'i deg o ysgolion cynradd partner ac yn gweithio'n agos â hwy. Mae pob un o'r ysgolion yn nheulu Bryngwyn yn cynllunio gyda'i gilydd i benderfynu sut i wario'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae gan un o bedwar cyfarwyddwr dysgu Ysgol Bryngwyn rôl arweiniol o fewn y teulu ar gyfer cydlynu gwariant y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion. Caiff cynllun datblygu'r teulu ei gynhyrchu gan y pwyllgor llywio. Mae'r pwyllgor yn cynnwys cynrychiolydd o bob un o'r ysgolion cynradd partner. Er mwyn cael y cyllid, mae'r ysgolion yn gweithio ar un neu fwy o feysydd blaenoriaeth y teulu y cytunwyd arnynt yn y cynllun. Cynhelir HMS ar y cyd, gan gynnig cyfleoedd i'r ysgolion weithio gyda'i gilydd i gyflawni nodau a rennir. Mae

cynlluniau gwella unigol ysgolion yn y teulu yn bwydo i mewn i gynllun cyffredinol y teulu o ysgolion. Mae cyllid yn cael ei gadw'n ganolog a'i weinyddu gan fwrsar yr ysgol uwchradd. Cytunir ar yr holl geisiadau gwariant gan y pwyllgor llywio, lle caiff cyfrif cynhwysfawr o wariant ei gadw.

**Gweithredu**

Mae'r teulu o ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i fabwysiadu'r un rhaglen llythrennedd ar draws pob ysgol. Mae rhai o'r meysydd ffocws ar gyfer hyfforddiant yn cynnwys sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol, ac mae rhai eraill yn cynnwys gweithgareddau gan ysgolion unigol. Yn Ebrill 2012, cynhaliodd y teulu o ysgolion ddiwrnod HMS ar y cyd, pan fu staff yn canolbwyntio ar safoni gwaith ar draws cyfnodau, a'u ffair ddysgu gyntaf. Gosodwyd stondinau yn neuadd Ysgol Bryngwyn fel bod pob ysgol yn gallu dangos sut roeddent wedi gweithio ar nodau'r teulu ar y cyd, a'r effaith yr oeddent wedi'i chael ar ddysgu eu disgyblion. Cafodd gwaith y cymunedau dysgu proffesiynol a sefydlwyd rhwng yr ysgolion ei rannu yn y ffair hefyd. Mynychwyd y ffair gan gynrychiolwyr yr awdurdod lleol, llywodraethwyr yr ysgolion a chyhoeddwyr a chyflenwyr addysg, ynghyd â staff o bob un o'r ysgolion.

**Canlyniadau**

Cynigiodd y ffair gyfleoedd i staff weld yn uniongyrchol beth oedd ysgolion eraill wedi bod yn gweithio arno, ac i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol ar draws cyfnodau gwahanol.

Roeddent yn gallu rhannu arfer dda a dysgu o brofiadau ysgolion eraill. Mae'r wybodaeth a gasglwyd o'r digwyddiad yn helpu'r ysgolion hyn i gynllunio'r camau nesaf o'u gwaith ar y cyd ar wella ysgolion. Yn yr arolygiad diweddar o Ysgol Gyfun Bryngwyn, barnwyd bod y disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4.

25 Mae amodau tâl a gwasanaeth ar gyfer staff cymorth dysgu yn amrywio ledled Cymru. Nid yw'n ofynnol i bob un o'r aelodau staff hyn fynychu sesiynau HMS, ac nid ydynt ychwaith yn cael eu talu i'w mynychu, yn yr un modd ag athrawon. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae staff cymorth dysgu yn mynychu pob sesiwn HMS. Yn ychydig o'r ysgolion hyn, maent yn darparu neu'n cyfrannu at HMS, gan ddefnyddio a gwella eu medrau proffesiynol yn dda iawn. Mewn ysgolion eraill, mae arweinwyr a rheolwyr yn penderfynu ynghylch a ddylai staff cymorth dysgu fynychu sesiynau hyfforddiant penodol, ac yn eu talu'n unol â hynny. Mewn ychydig o ysgolion, mae'r staff cymorth dysgu yn mynychu HMS yn wirfoddol am eu bod yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant. Er y gallai staff cymorth dysgu elwa o weithgareddau DPP eraill, mae eu diffyg ymglymiad â HMS ysgol-gyfan yn debygol o rwystro a chyfyngu eu cyfraniad at wella ysgolion. Mae astudiaethau achos 1 a 6 yn cynnwys enghreifftiau o'r modd y mae'r ysgolion yn cynnwys staff cymorth dysgu mewn hyfforddiant HMS.

26 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae arweinwyr yn rhoi gwybod i'r llywodraethwyr am weithgareddau HMS. Er bod llawer o ysgolion yn gwahodd llywodraethwyr i fynychu HMS yn aml, dim ond mewn rhyw chwarter o ysgolion y mae llywodraethwyr yn mynychu un neu fwy o weithgareddau HMS fel arfer. Mae'r llywodraethwyr sy'n mynychu HMS yn gwerthfawrogi'r cipolwg y mae hyn yn ei roi i agweddau ar waith yr ysgol, a'r wybodaeth y maent yn ei chael am yr ysgol.

27 Mae nodweddion trefnu a chyflwyno diwrnodau HMS yn effeithiol yn cynnwys:

- defnyddio arbenigedd staff i ddarparu hyfforddiant mewnol, sy'n helpu adeiladu a chynnal y gallu i wella;
- sicrhau bod hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu gan sefydliadau ac arbenigwyr allanol yn cael ei deilwra'n ofalus at anghenion penodol yr ysgol;
- defnyddio dulliau ar gyfer sesiynau hyfforddi sy'n cynnwys staff yn weithredol, fel seminarau, gweithdai a gwersi arddangos;
- cydweithio ag ysgolion eraill fel bod staff yn cael cyfleoedd i elwa ar rannu profiadau, arbenigedd ac arfer dda; a
- chwilio am ffyrdd i gynnwys staff cymorth dysgu mewn hyfforddiant HMS.

## 3. Ystod y testunau HMS a'r pwyslais ar lythrennedd a rhifedd

28 Mae gweithgareddau HMS yn cwmpasu ystod eang o destunau. Mewn llawer o ysgolion, bydd gweithgareddau HMS fel arfer yn cael eu cysylltu'n dda â blaenoriaethau ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol. Yn gyffredinol, mae'r ysgolion hyn yn defnyddio HMS yn effeithiol i hyrwyddo gwella'r ysgol.

29 Dros y pum mlynedd diwethaf, llythrennedd sydd wedi cael y sylw pennaf yn ystod HMS, gyda llawer o ysgolion yn canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu darllen ac ysgrifennu. Yn 2012-2013, mae pob ysgol bron yn bwriadu canolbwyntio ar lythrennedd am o leiaf un diwrnod HMS yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Yn aml, mae ysgolion wedi nodi'r angen i archwilio'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol newydd fel ffocws eu hyfforddiant. Nid yw rhifedd wedi cael cymaint o flaenoriaeth â llythrennedd. Fodd bynnag, fe wnaeth mwyafrif o ysgolion a ymatebodd i'r holiadur nodi bod rhifedd yn faes ar gyfer HMS eleni. O'r ysgolion sydd wedi nodi rhifedd fel maes hyfforddiant yn 2012-13, mae bwriadau gan lawer hefyd i archwilio'r Fframwaith Rhifedd Cenedlaethol newydd.

30 Mae ystod y testunau HMS mewn ysgolion ar wahân i lythrennedd a rhifedd yn amrywiol ac yn eang. Mae rhai testunau HMS yn benodol i gyfnod yr ysgol, fel dysgu yn yr awyr agored mewn ysgolion cynradd, neu HMS ar adborth CBAC mewn ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, mae testunau tebyg hefyd y mae pob math o ysgolion yn rhoi sylw iddynt, gan gynnwys eleni:

- diogelu;
- dwyieithrwydd;
- datblygu medrau meddwl a holi ar draws y cwricwlwm;
- rheoli ymddygiad; ac
- asesu a safoni.

31 Pan fydd ffocws HMS ysgolion ar bynciau a meysydd dysgu heblaw am Saesneg, Cymraeg a mathemateg, yn aml nid oes digon o ystyriaeth o'r modd y gallai'r meysydd eraill hyn hyrwyddo medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Ar eu pennau'u hunain, ni all Saesneg, Cymraeg a mathemateg wneud digon i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae HMS yn cynnig cyfleoedd i staff ddod yn ymwybodol o'r angen i ddefnyddio pob cyd-destun ar gyfer dysgu i godi safonau llythrennedd a rhifedd.

32 Mewn ysgolion arbennig, mae hyfforddiant HMS yn canolbwyntio’n aml hefyd ar faterion pwysig yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, fel sut i godi ac atal disgyblion yn ddiogel. Rhaid ailadrodd rhai o’r meysydd iechyd a diogelwch hyn bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau’n gyfredol. Mae’r gostyngiad yn nifer y diwrnodau HMS, o saith i bump eleni, wedi rhoi straen ar allu ysgolion arbennig i ddarparu hyfforddiant iechyd a diogelwch pwysig i bob aelod o staff, yn ogystal â hyfforddiant yn ymwneud â gwelliannau addysgol eraill.

33 Am nifer o flynyddoedd, mae Adroddiadau Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant wedi tynnu sylw at y modd y mae ysgolion rhagorol yn llwyddo i gyflawni lefel uchel iawn o gysondeb mewn addysgu a dysgu ar draws eu sefydliadau. Mewn ysgolion sy’n perfformio’n dda iawn, mae HMS yn chwarae rhan bwysig yn aml yn helpu cyflawni’r cysondeb hwn. Er enghraifft, gall ysgolion ddefnyddio HMS i ddatblygu fformat cyffredin ar gyfer cynlluniau gwersi, a chytuno dulliau ysgol-gyfan i hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae astudiaethau achos 3 a 4 isod yn dangos sut mae dwy ysgol wedi defnyddio HMS i’w helpu i wella cysondeb yr addysgu a’r dysgu er mwyn codi safonau.

**Astudiaeth Achos 3**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Llangynidr, i’r gorllewin o Grucywel, yn gwasanaethu’r gymuned leol a’r pentrefi cyfagos. Mae 112 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys wyth o blant meithrin amser llawn. Nid yw’r un disgybl yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

**Strategaeth**

Cynhaliodd y staff ddadansoddiad trylwyr o Saesneg fel rhan o’r hunanarfarnu. Fe wnaeth cymharu data’r teulu ddangos i’r arweinwyr a’r rheolwyr, er bod disgyblion yn darllen yn rhugl, bod angen datblygu eu medrau darllen lefel uwch a dealltwriaeth darllen ymhellach, yn enwedig ar gyfer disgyblion mwy galluog. Gan gydnabod bod perfformiad yn sylweddol is na chyfartaledd y teulu a chyfartaleddau Powys a Chymru, gwnaethpwyd llythrennedd yn flaenoriaeth uchaf yr ysgol ar gyfer gwella yn 2011.

**Gweithredu**

Credai’r staff fod gwahaniaethau yn y ffyrdd yr oeddent yn addysgu ‘darllen dan arweiniad[1]’ ac roeddent eisiau datblygu dull cyson ar draws yr ysgol. Gwahoddwyd sefydliad hyfforddi allanol i ddarparu hyfforddiant ar ddarllen dan arweiniad yn ystod diwrnod pan oedd yr ysgol ar gau. Nodwyd cyfwerth â dau ddiwrnod HMS pellach fel sesiynau gyda’r nos trwy gydol y flwyddyn ysgol. Defnyddiodd yr ysgol yr amser hwn i atgyfnerthu’r strategaeth yn barhaus, i ystyried anawsterau a datrys materion. Fe

[1] Mewn darllen dan arweiniad, mae grwpiau bach o ddisgyblion o allu tebyg yn cael eu harwain drwy’r testun gan yr athro. Mae’r ffocws ar ddatblygu ac ymarfer strategaethau i ymdopi â thestun anghyfarwydd.

wnaeth staff fideo o'u sesiynau darllen dan arweiniad gyda disgyblion, a defnyddio'r dystiolaeth hon i'w helpu i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu, yn ogystal â rhannu arfer dda. Fe wnaeth yr ysgol gytuno hefyd y byddai un o'r targedau rheoli perfformiad ar gyfer staff yn canolbwyntio ar ddefnyddio darllen dan arweiniad er mwyn codi safonau.

**Canlyniadau**

Mae pob un o'r staff wedi datblygu'u medrau addysgu o ganlyniad i'r HMS i'r staff ar ddarllen. Roedd yr hyfforddiant yn cydweddu'n dda ag anghenion staff, ac maent wedi defnyddio'r medrau a ddysgwyd yn dda i godi safonau deilliannau'r disgyblion. Yn 2012, roedd gwelliant ym mherfformiad y disgyblion. Llwyddodd 94% o blant yn y Cyfnod Sylfaen i gyflawni'r deilliant disgwyliedig (Deilliant 5), ac fe wnaeth 41% gyflawni Deilliant 6, canran uwch na chyfartaledd y teulu, sef 32%. Yng nghyfnod allweddol 2, llwyddodd 100% o ddisgyblion Blwyddyn 6 i gyflawni lefel 4 neu well. Fe wnaeth 62% o ddisgyblion gyflawni lefel 5+ o gymharu â chyfartaledd y teulu, sef 40%. Canfu'r arolwg diweddar o'r ysgol fod yno gymuned ddysgu broffesiynol effeithiol iawn sy'n canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau a nodwyd ar gyfer gwella deilliannau disgyblion mewn darllen ac ysgrifennu.

**Astudiaeth Achos 4**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gyfun Cynffig yn ysgol gymunedol gydaddysgol ar gyfer disgyblion 11-18 oed yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae ganddi ryw 700 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae gan 31% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17% ar gyfer ysgolion uwchradd.

**Strategaeth**

Un o flaenoriaethau allweddol yr ysgol yw ymgorffori datblygu medrau disgyblion yn fframwaith cwricwlwm yr ysgol. Gan gydnabod bod llythrennedd yn ganolog i lwyddiant pob disgybl, strategaeth yr ysgol yw darparu amrywiaeth gyfoethog o brofiadau llythrennedd ar draws pob pwnc, fel y gall disgyblion ddysgu, ymarfer a gwella eu medrau llythrennedd mewn ystod eang o feysydd.

**Gweithredu**

Sefydlodd yr uwch reolwyr grŵp ffocws llythrennedd y rhoddwyd y dasg iddo i gynhyrchu pecyn offer llythrennedd i gynorthwyo'r staff. Roedd y grŵp ffocws yn cynnwys cydweithwyr o bump o adrannau pwnc gwahanol, yn ogystal ag aelod o'r staff gweinyddol sy'n un o lywodraethwyr yr ysgol.

Wrth lunio'r pecyn offer, aeth y grŵp ffocws ati i ddefnyddio cyhoeddiadau Estyn ar lythrennedd, yn enwedig y dogfennau arfer dda ar ddarllen ac ysgrifennu. Gan ddefnyddio'r rhain ac amrywiaeth o ddeunyddiau eraill, cynhyrchodd y grŵp becyn offer sy'n esbonio sut i addysgu medrau llythrennedd ar draws pob maes pwnc.

Mae'r pecyn offer cynhwysfawr yn darparu gwybodaeth ac arweiniad i bob athro ar sut i hyrwyddo medrau llythrennedd disgyblion yn effeithiol. Mae'r pecyn offer yn cynnwys:

- defnyddiau a buddion gweithgareddau cyn-darllen mewn meysydd pwnc gwahanol;
- sut i addysgu gramadeg, atalnodi a sillafu;
- cod marcio i sicrhau cysondeb ar draws yr holl feysydd pwnc;
- gwybodaeth am y chwe math o destun ffeithiol, gan nodi nodweddion iaith a meini prawf llwyddo; a
- strategaethau i staff eu defnyddio i gynorthwyo ysgrifenwyr gwan.

Fe wnaeth y grŵp ffocws llythrennedd ddefnyddio un o ddiwrnodau HMS yr ysgol yn Ionawr 2012 i gyflwyno'r pecyn offer i bob aelod o'r staff. Yn ystod y diwrnod, cynhaliwyd gweithdai ymarferol a roddodd gyfle i'r staff drafod y pecyn offer a datblygu medrau mewn addysgu llythrennedd.

I wneud yn siŵr bod y pecyn offer llythrennedd yn dod yn rhan o'r addysgu a dysgu bob dydd, mae amcan rheoli perfformiad generig gan bob un o'r staff sy'n ymwneud â defnyddio'r pecyn offer. Mae'r Cofnodion Adolygu a Datblygu Arfer, sy'n cael eu cadw gan staff unigol, yn rhoi enghraifft o'r amcan hwn fel bod staff yn deall yn glir sut y dylent fynd ati i hyrwyddo llythrennedd a defnyddio'r pecyn offer yn eu meysydd pwnc.

**Canlyniadau**

Mae'r ysgol eisoes yn perfformio'n dda iawn mewn perthynas â chyfartaledd y teulu, a chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Yn yr arolygiad diweddar, barnodd arolygwyr fod perfformiad y disgyblion yn rhagorol yng nghyfnod allweddol 4. Mae pecyn offer llythrennedd yr ysgol yn cael ei ddefnyddio i helpu cynnal y safonau uchel hyn, yn ogystal â gwella'r safonau da yng nghyfnod allweddol 3 i'r un lefel uchel.

34 Mae llawer o ysgolion yn canolbwyntio ar arfarnu perfformiad disgyblion yn ystod diwrnodau HMS. Er enghraifft, efallai y byddant yn defnyddio diwrnod HMS ym Medi i adolygu deilliannau'r flwyddyn flaenorol, yn ogystal ag ystyried sut i wella agweddau ar eu gwaith. Efallai y bydd arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio amser HMS hefyd fel cyfle i ailystyried gweledigaeth, gwerthoedd a nodau'r ysgol, yn enwedig lle bo nifer sylweddol o aelodau staff newydd neu arweinydd newydd yn yr ysgol.

35 Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio gryn dipyn islaw'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol[2]. Fodd bynnag, mae ymatebion i'r holiadur gan ysgolion ac awdurdodau lleol yn dangos mai dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n defnyddio HMS yn gyffredin i'w helpu i ganolbwyntio ar leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Mae gan ysgolion ran allweddol i'w chwarae i helpu disgyblion o gefndiroedd difreintiedig i gyflawni mwy. Dywedodd rhyw draean o ysgolion a ymatebodd i'r holiadur mai dim ond weithiau yr oeddent yn defnyddio HMS neu prin

[2] Estyn, Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi 2011-2012

yr oeddent yn defnyddio HMS at y dibenion hyn. Mae HMS yn cynnig cyfleoedd i ysgolion ddatblygu a gwella medrau staff er mwyn deall yn well a diwallu anghenion disgyblion a chodi safonau. Er enghraifft, roedd un ysgol uwchradd yn defnyddio diwrnod HMS i ddadansoddi ystod eang o ddata perfformiad, i nodi'r rhwystrau rhag dysgu i ddisgyblion a chytuno strategaethau ar gyfer addysgu a dysgu mwy effeithiol.

36 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos sut y gwnaeth HMS gynorthwyo ysgol fabanod i leihau'r bwlch ym mherfformiad disgyblion.

**Astudiaeth Achos 5**

**Cyd-destun**

Ysgol fabanod cyfrwng Cymraeg ym mhentref Bethesda yw Ysgol Abercaseg. Daw'r disgyblion o'r pentref a'r ardal gyfagos. Mae 98 o ddisgyblion amser llawn a 23 o blant meithrin sy'n mynychu'n rhan amser. Mae bron 70% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel mamiaith. Mae gan 19% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

**Strategaeth**

Mae'r ysgol wedi coleddu egwyddorion ac athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn frwd. Drwy HMS a gweithgareddau hyfforddi eraill, mae uwch arweinwyr wedi cefnogi a gwella medrau staff i roi'r trefniadau newydd ar waith. Fe wnaethant ddefnyddio HMS hefyd i ddarparu cyfleoedd i rieni fynychu hyfforddiant a chael gwybodaeth well am y Cyfnod Sylfaen.

**Gweithredu**

Defnyddiodd yr ysgol arbenigedd ymgynghorwyr yr awdurdod lleol, a hefyd medrau ei staff ei hun i ddarparu HMS. Roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar y meysydd y mae'r ysgol wedi'u nodi i'w datblygu, gan gynnwys:

- gwella addysgu a dysgu medrau darllen;
- datblygu medrau mathemategol ymarferol y disgyblion;
- defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i wella llythrennedd a rhifedd;
- datblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu;
- datblygu rôl staff cymorth dysgu; a
- chefnogi rhieni.

**Canlyniadau**

Mewn gwersi, mae'r staff yn gwneud gwell defnydd o holi penagored er mwyn ymestyn dealltwriaeth a medrau llefaredd y disgyblion. Mae addysgu medrau darllen, a defnydd disgyblion o batrymau brawddegau cywir wedi gwella. At ei gilydd, mae mwy o ddisgyblion yn cyflawni'r Deilliant 6 uwch erbyn iddynt fod yn saith mlwydd oed. Yn 2012, fe wnaeth y canlyniadau osod yr ysgol yn y chwartel uchaf, ac roedd y perfformiad hwn 30% yn uwch na chyfartaledd y teulu. Yn benodol, mae perfformiad

disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella, ac mae'r bwlch rhwng eu perfformiad nhw a pherfformiad disgyblion eraill yn lleihau. Yn yr arolygiad diweddar, barnwyd bod safonau uchel gan yr ysgol o ran cymorth a hyfforddiant ar gyfer datblygiad proffesiynol pob aelod o staff.

37 Nid yw lleiafrif bach o ysgolion yn defnyddio amser HMS yn gynhyrchiol bob amser. Yn aml, yn yr ysgolion hyn, nid yw cynnwys y rhaglen HMS yn cael ei phennu digon gan flaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol, anghenion unigol y staff na blaenoriaethau cenedlaethol. Mae tystiolaeth arolygu yn awgrymu bod amser HMS, mewn ychydig o ysgolion, yn cael ei dreulio ar weithgareddau amhriodol, fel trefnu ystafelloedd dosbarth ac arddangosfeydd. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae staff yn defnyddio amser HMS ar ddechrau bob tymor i gynllunio, ac mae amser eisoes wedi'i neilltuo yn ystod yr wythnos ysgol ar gyfer hyn. At ei gilydd yn yr ysgolion hyn, nid yw diwrnodau HMS yn cyfrannu digon at ddatblygiad proffesiynol parhaus na gwella'r ysgolion.

## 4. Arweinyddiaeth a rheolaeth HMS

38 Yn gyffredinol, mae digwyddiadau HMS yn cael eu cynllunio a'u rheoli'n dda mewn llawer o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae cysylltiadau clir a chydlynus rhwng gweithgareddau HMS a'r blaenoriaethau a nodwyd mewn cynlluniau gwella ysgolion, a thrwy brosesau fel rheoli perfformiad a hunanarfarnu.

39 Mewn llawer o ysgolion, mae arfarnu HMS yn tueddu canolbwyntio gormod ar ansawdd y profiad a deilliannau bwriadedig yr hyfforddiant. Nid yw dadansoddiadau'n canolbwyntio digon ar effaith yr hyfforddiant ar gynnydd a datblygiad disgyblion.

40 Fel arfer, mae awdurdodau lleol yn gwneud cyfraniad da at HMS ysgolion, yn arbennig, o ran helpu ysgolion i rwydweithio a chydweithio ag ysgolion eraill. Ynghyd ag ysgolion, nid yw mwyafrif yr awdurdodau lleol yn gwybod digon am y mathau o weithgareddau HMS sydd fwyaf llwyddiannus o ran cyflawni gwelliannau mewn gwybodaeth a medrau staff, newidiadau trefniadol, gwerth am arian a deilliannau disgyblion.

41 Mewn llawer o ysgolion, mae arweinwyr yn sicrhau bod cysylltiadau a chydlyniad da rhwng gweithgareddau HMS, rheoli perfformiad, hunanarfarnu a blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol. Yn yr ysgolion hyn yn gynyddol, mae staff cymorth dysgu a llywodraethwyr yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant gyda'r athrawon hefyd. Mae systemau integredig gan yr ysgolion sydd wedi gwneud gwelliannau, fel bod HMS a mathau eraill o ddatblygiad proffesiynol, yn cysylltu'n naturiol â rheoli perfformiad a hunanarfarnu ar gyfer pob aelod o staff.

42 Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos sut aeth pennaeth mewn ysgol gynradd ati i ddefnyddio HMS fel modd o helpu staff i adnewyddu'u hyder a'u brwdfrydedd proffesiynol, a chodi safonau.

**Astudiaeth Achos 6**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd St. Mark yn ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, ar gyrion Hwlffordd yn Sir Benfro. Mae rhyw 45% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n uwch o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn 2005, ychydig ar ôl i'r pennaeth presennol gael ei benodi, canfu arolygiad fod safonau cyflawniad y disgyblion yn amrywio'n fawr ar draws yr ysgol. Yn aml, roedd cyrhaeddiad y disgyblion ymhell islaw eu galluoedd a disgwyliadau cenedlaethol. Roedd yr ysgol wedi gwneud cynnydd annigonol ers yr arolygiad diwethaf.

**Strategaeth**

Ar ôl yr arolygiad, fe wnaeth y pennaeth gydnabod yr angen i'r staff ail-ganfod eu hyder a'u brwdfrydedd proffesiynol, a gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. O ganlyniad, mae datblygiad staff wedi cael blaenoriaeth uchel iawn yn yr ysgol. Daeth HMS yn fodd hanfodol o ddarparu datblygiad staff ar draws yr ysgol gyfan.

**Gweithredu**

Gwnaeth uwch reolwyr yn siŵr fod prosesau hunanarfarnu trwyadl yn cael eu rhoi ar waith, er mwyn nodi blaenoriaethau gwella'r ysgol ac anghenion hyfforddi'r staff yn gywir. Roedd cysylltiad agos rhwng cynllun gwella'r ysgol a thargedau ar gyfer rheoli perfformiad fel bod proses gydgysylltiedig a chydlynus a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar safonau ac ansawdd. Fe wnaeth cynorthwywyr cymorth dysgu, yn ogystal â staff addysgu, gymryd rhan yn yr hyfforddiant, a chymeront gyfrifoldeb am baratoi a chyflwyno rhywfaint o raglen HMS yr ysgol. Mae'r dull hwn wedi helpu'r ysgol i adeiladu a chynnal y gallu i wella.

**Canlyniadau**

Mae'r staff addysgu a'r staff cymorth wedi datblygu amrywiaeth eang o fedrau proffesiynol. Maent yn ymwybodol iawn o'r modd y gall HMS da wella ansawdd eu gwaith a helpu disgyblion i gyflawni mwy. Fe wnaeth yr arolygiad diweddar o'r ysgol gydnabod bod yr ysgol yn cynnig cyfleoedd da iawn i ddatblygu arbenigedd staff mewn meysydd o'r cwricwlwm, ac mae hynny'n cael effaith dda iawn ar safonau yn yr ysgol, er enghraifft, mewn llythrennedd. Cafodd staff eu gwahodd gan yr awdurdod lleol i rannu'u harfer gydag ysgolion eraill.

43 Fel arfer, mae gan ysgolion y bernir eu bod yn ddigonol neu'n anfoddhaol mewn arolygiadau wendidau mewn arweinyddiaeth, rheoli perfformiad, hunanarfarnu a hyfforddiant ar gyfer datblygiad proffesiynol, gan gynnwys HMS. Efallai nad oes gan yr ysgolion hyn gysylltiadau clir rhwng hyfforddiant staff a blaenoriaethau'r ysgol neu dargedau rheoli perfformiad. Yn yr achosion gwaethaf, gadewir i'r staff gynllunio HMS eu hunain.

44 Bydd awdurdodau lleol fel arfer yn gwneud cyfraniad da at HMS ysgolion, gan gynnwys cynghori ysgolion ar ffocws ac ystod hyfforddiant, yn ogystal â chyflwyno hyfforddiant HMS eu hunain. Maent yn chwarae rôl arbennig o bwysig yn hwyluso rhwydweithio a chydweithio rhwng ysgolion.

45 Nid oes digon o ysgolion yn gwneud digon i arfarnu effaith HMS. Yn benodol, nid ydynt yn rhoi ffocws ddigon clir ar feini prawf llwyddo o ran y datblygiadau y gellid eu disgwyl ym mherfformiad disgyblion. Mae arfarnu'r hyfforddiant yn cael ei gyfyngu'n aml i ddiwedd y diwrnod hyfforddi neu'n fuan wedyn. Nid oes digon o fonitro'n cael ei wneud o effaith HMS dros gyfnod. Mae arfarniad o HMS gan ysgolion yn canolbwyntio mwy yn aml ar ansawdd y profiad hyfforddi a chanlyniadau bwriadedig yr hyfforddiant, fel cynhyrchu cynlluniau cwricwlwm newydd. Nid oes digon o bwyslais ar effaith yr hyfforddiant ar gynnydd a datblygiad disgyblion. Mae adroddiadau eraill Estyn ar hyfforddiant staff, y cyfeirir atynt yn Atodiad 2, wedi nodi gwendidau tebyg yn y ffordd y mae ysgolion yn monitro ac yn arfarnu'u datblygiad proffesiynol.

46 Yn yr arfer orau, mae canlyniadau bwriadedig HMS yn glir yng nghynlluniau cychwynnol y gweithgareddau hyfforddi, ac mae cynlluniau'n dangos sut, pa bryd a chan bwy y bydd monitro ac arfarnu'n cael eu cyflawni. Manteision nodi effaith fwriadedig HMS ar addysgu a dysgu yw:

- sicrhau bod datblygiad proffesiynol yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig;
- bod dealltwriaeth glir gan staff o'r hyn maent yn anelu i'w gyflawni; a
- bod arweinwyr mewn lle da i arfarnu effeithiolrwydd effaith HMS, gan eu bod yn gwybod o'r cychwyn beth yw'r canlyniadau bwriadedig

Mae astudiaeth achos 7 isod yn dangos sut mae ysgol gynradd yn arfarnu HMS i helpu arweinwyr a rheolwyr i farnu'r effaith ar addysgu a dysgu.

**Astudiaeth Achos 7**

**Cyd-destun**

Ysgol gynradd fach i'r de o dref y Coed-duon yw Ysgol Gynradd Ynysddu. Mae 94 o ddisgyblion oed cyfwerth ag amser llawn rhwng tair ac 11 ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae gan ryw 35% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hynny ymhell uwchlaw'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

**Strategaeth**

Ers penodi'r pennaeth yn 2009, bu ffocws cadarn ar ddatblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys datblygu arweinyddiaeth wasgaredig yn yr ysgol. Mae cysylltiadau clir iawn a chadarn rhwng polisïau'r ysgol, rheoli perfformiad, hyfforddiant staff, y rhaglen HMS a chynllun gwella'r ysgol.

**Gweithredu**

Mae pob aelod o staff yn arfarnu'r hyfforddiant a dderbyniant. Maent yn cadw cofnod dysgu myfyriol, sy'n archwilio buddion tymor byr a thymor hir hyfforddiant, a'i effaith

ar eu harfer a chyflawniadau disgyblion. Er enghraifft, y llynedd, cynhaliodd yr ysgol sesiynau HMS ar nodweddion arddull ysgrifennu dyddiadur. Ar ddiwedd y flwyddyn, aeth y staff ati i arfarnu eu hyder a'u cymhwysedd yn addysgu'r genre hwn. Defnyddiwyd y cofnodion dysgu hyn a gwybodaeth arall gan uwch reolwyr i arfarnu HMS o ran effaith ar:

- wybodaeth, medrau a pherfformiad staff; a
- gwella'r ysgol, gan gynnwys codi safonau llythrennedd.

Cynhyrchwyd adroddiad ganddynt, sy'n cyfosod eu canfyddiadau ac yn nodi hyfforddiant HMS pellach i'r staff.

**Canlyniadau**

Fe wnaeth dadansoddiad o samplau o ysgrifennu dyddiadur y disgyblion gadarnhau bod disgyblion wedi gwella'u hysgrifennu. Hefyd, mae mwy o gywirdeb a chysondeb yn asesiadau'r athrawon. Barnodd yr arolygiad diweddar fod safonau yn codi yn dangos bod datblygiadau newydd a gyflwynwyd gan arweinwyr yn cael effaith sylweddol ar berfformiad disgyblion.

47 O ran ysgolion, nid yw mwyafrif o awdurdodau lleol yn gwybod digon am effaith HMS. Nid ydynt yn casglu digon o wybodaeth o ysgolion am effeithiau hyfforddiant, ac yn aml gwybodaeth gyfyngedig sydd ganddynt am agweddau fel gwerth am arian.

48 Nid yw gwybodaeth o sesiynau HMS yn cael ei lledaenu'n llawn mewn mwyafrif o ysgolion. Mae rhannu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio orau i wella addysgu a dysgu yn bwysig ar gyfer gwella ysgolion. Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos sut y canfu un ysgol arbennig ffordd arloesol o rannu gwybodaeth ar draws yr ysgol.

**Astudiaeth Achos 8**

**Cyd-destun**

Ysgol arbennig a gynhelir gan yr awdurdod lleol yn ardal Trelái yng Nghaerdydd yw Ysgol Tŷ Gwyn, ar gyfer plant a phobl ifanc 3 - 19 oed sydd ag anawsterau dysgu dwys neu luosog. Mae llawer o'r disgyblion ar y sbectrwm awtistig hefyd. Mae 120 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, neu mae eu hanghenion wrthi'n cael eu hasesu. Mae 32% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion arbennig, sef 43%,

**Strategaeth**

Mae uwch reolwyr yn rhoi cyfleoedd i'r staff gaffael a datblygu'u medrau arbenigol yn ogystal â myfyrio ar yr arfer fwyaf effeithiol a rhannu'r arfer honno. Maent yn defnyddio achlysuron fel diwrnodau HMS i feithrin diwylliant cryf o ddatblygiad proffesiynol ar draws yr ysgol. Hefyd, mae rhwydweithiau effeithiol iawn o arfer broffesiynol yn yr ysgol a thu hwnt yn canolbwyntio ar wella ansawdd yr addysgu a deilliannau ar gyfer disgyblion.

**Gweithredu**

Er mwyn rhannu arfer dda yn fwy effeithiol fyth, mae'r pennaeth wedi cyflwyno 'Cyfnodolyn Dysgu ac Addysgu' i'r staff. Cyhoeddir y cyfnodolyn hwn gan yr ysgol nifer o weithiau yn ystod pob hanner tymor. Mae cynnwys y cyfnodolyn yn amrywiol, ac yn nodweddiadol yn cynnwys:

- adborth o HMS, cyrsiau hyfforddi ac ymweliadau ag ysgolion eraill, gyda dadansoddiad o'r buddion ar gyfer addysgu a dysgu;
- erthyglau ymchwil cyfredol sy'n berthnasol i addysg disgyblion ag anawsterau dysgu cymhleth;
- cyfeiriadau at ddogfennau Llywodraeth Cymru, fel canllawiau iechyd a diogelwch; ac
- enghreifftiau o arfer ragorol.

**Canlyniadau**

Mae dull systematig a thrylwyr yr ysgol o gyflwyno datblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys HMS, yn galluogi pob aelod o staff i gael cyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i wella'u medrau a'u gwybodaeth. O ganlyniad, mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu priodol a phersonol iawn i'r disgyblion. Barnodd yr arolygiad diweddar fod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn cyflawni safonau da iawn mewn perthynas â'u galluoedd a'u targedau personol.

49 Lle mae arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol o HMS, mae ysgolion:

- yn sicrhau cysylltiadau clir a chydlynus rhwng gweithgareddau HMS a'r blaenoriaethau a nodwyd yn y cynlluniau gwella ysgol;
- yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol fel bod HMS yn cefnogi'r ymdrech i wella ysgolion;
- yn gwneud defnydd da o ystod eang o dystiolaeth i nodi anghenion datblygu staff a defnydd effeithiol o HMS i gefnogi'r datblygiad hwn;
- wedi sicrhau bod prosesau fel rheoli perfformiad a hunanarfarnu yn cysylltu'n agos â hyfforddiant HMS;
- wedi gwneud yn siŵr bod eglurder ynghylch canlyniadau bwriadedig HMS fel bod modd monitro, arfarnu a lledaenu'r effeithiau yn eang; ac
- yn ymwybodol iawn o ddarpariaeth HMS effeithiol, sy'n arwain at newidiadau sylweddol mewn arfer a gwelliannau mewn safonau, yn ogystal â'r rheini sy'n cynnig gwerth da am arian.

## 5. Effaith HMS ar wella ysgolion a safonau

50 Mae cysylltiadau achosol rhwng HMS a gwelliannau mewn safonau disgyblion yn anodd eu pennu yn aml, ond mae tystiolaeth fod HMS o ansawdd da yn cyfrannu at weithlu mwy medrus ac effeithiol yn haws ei chanfod. Gan mai ansawdd addysgu yw un o'r dylanwadau pennaf ar safonau disgyblion, gall HMS fod yn arwyddocaol o ran helpu ysgolion i sicrhau gwelliannau. Trwy gefnogi datblygiad medrau proffesiynol staff, mae HMS yn chwarae rhan allweddol yn sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol mewn lleoliadau ysgol.

51 Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn sicrhau bod HMS yn cael ei integreiddio â'r rhaglen DPP ehangach sy'n cael ei chynnal ar gyfer staff. Mae hyn yn cynyddu i'r eithaf y ffordd y gall yr hyfforddiant gyfrannu'n llawn at wella ysgolion a gwelliannau mewn safonau.

52 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos sut y defnyddiwyd HMS gan ysgol uwchradd i gyflawni gwelliannau yn yr addysgu sydd wedi ehangu mynediad disgyblion i'r cwricwlwm.

**Astudiaeth Achos 9**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Uwchradd y Fflint yn gwasanaethu tref y Fflint a'r cylch. Mae tua 17% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sef yr un fath â chyfartaledd Cymru. Mae rhyw 660 o ddisgyblion ar y gofrestr. Yn 2010, dangosodd profion darllen fod gan ryw 55% o'r disgyblion yn dod i mewn i'r ysgol oedrannau darllen islaw eu hoed cronolegol. Er bod darpariaeth dda gan yr ysgol eisoes ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, cydnabu uwch reolwyr fod angen cymorth llythrennedd ar fyrder ar grŵp eang o ddisgyblion.

**Strategaeth**

Yn 2010-2011, dewisodd uwch reolwyr ddefnyddio diwrnod HMS i lansio strategaeth ymyrraeth llythrennedd yr ysgol, ac i roi gwybod i bob aelod o staff, ac ennyn eu brwdfrydedd ynglŷn â'r angen i addysgu darllen. Trwy gyflwyniadau ar ddeilliannau'r data profion darllen ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7, rhoddwyd gwybodaeth i'r staff am y canlynol:

- disgyblion ag oedran darllen islaw lefel llythrennedd gweithredol (9.5 oed);
- disgyblion ag oedran darllen fwy na chwe mis islaw eu hoed cronolegol;
- disgyblion ag oedran darllen o fewn chwe mis i'w hoed cronolegol; a
- disgyblion ag oedran darllen uwchlaw eu hoed cronolegol.

Fe wnaeth y wybodaeth hon alluogi staff i ddeall yn well pam na allai rhai disgyblion fanteisio ar ddeunyddiau pwnc. Yn ystod y diwrnod, dangoswyd enghraifft o raglen cyd-ddarllen lwyddiannus i'r staff gan yr adran wyddoniaeth, ac fe wnaeth hynny law yn llaw â data'r profion darllen, ddarparu tystiolaeth rymus a argyhoeddodd staff y gallai pawb ac y dylai pawb gefnogi gwelliant mewn darllen disgyblion.

**Gweithredu**

Ar ôl dangos i'r staff **pam** yr oedd angen iddynt gefnogi datblygu medrau darllen y disgyblion, defnyddiwyd diwrnodau HMS dilynol i ddangos iddynt **sut** i addysgu medrau darllen. Cwmpasodd yr hyfforddiant strategaethau fel sgimio a sganio, dadansoddi geiriau i ddatgodio geirfa pwnc gymhleth, a defnyddio'r cyd-destun, tablau, lluniau ac awgrymiadau eraill i helpu dealltwriaeth.

Arweiniodd y canfyddiadau o ddata'r profion darllen at newidiadau sylweddol i gwricwlwm ac amserlen yr ysgol hefyd. Cyflwynwyd amser llythrennedd pwrpasol ar gyfer tua hanner disgyblion Blwyddyn 7. Mewn tri dosbarth yn flaenorol, trefnwyd y disgyblion hyn yn bum grŵp addysgu llai wedi'u staffio gan gynorthwywyr cymorth dysgu ac athrawon.

**Canlyniadau**

Fe wnaeth sesiynau HMS ysgol gyfan helpu rhoi gwybodaeth i'r staff a'u hysgogi, a gwneud strategaeth llythrennedd yr ysgol yn llwyddiannus. Rhoddodd yr hyfforddiant yn ystod diwrnodau HMS y medrau angenrheidiol i'r staff i ysgogi newid a sicrhau gwelliant ym medrau darllen y disgyblion. Pan gafodd y disgyblion brofion ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gwelliant amlwg yn sgorau eu profion. Tra bod angen cymorth llythrennedd ychwanegol ar un grŵp o ddisgyblion o hyd, mae'r pedwar grŵp arall wedi datblygu medrau digonol i ddilyn y cwricwlwm yn foddhaol.

53 Mae HMS yn effeithio ar welliant ysgolion a safonau disgyblion yn fwyaf effeithiol:

- pan fydd yr amser hyfforddiant pwrpasol ar gyfer staff yn cael ei ddefnyddio'n llawn ac yn cynnwys ffocws clir ar flaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol;
- pan fydd yn ffurfio rhan annatod o'r rhaglen DPP ehangach ar gyfer staff;
- pan fydd wedi'i ymgorffori â chynlluniau gwella ysgolion;
- pan fydd yr hyfforddiant yn cael ei ddefnyddio i wneud gwelliannau sylweddol mewn arfer;
- pan fydd staff yn diweddaru'u gwybodaeth a'u medrau proffesiynol;
- pan fydd staff yn ehangu ac yn cyfoethogi eu medrau addysgu ac arweinyddiaeth;
- pan fo cefnogaeth a her i'r ffordd y mae'r staff yn gweithio;
- pan fo lledaenu arfer dda yn cael ei rannu o fewn ysgolion a rhwng ysgolion;
- pan fo cyfleoedd i ysgolion gydweithio fel cymunedau dysgu proffesiynol a rhwydweithio gydag ysgolion eraill; a
- phan fydd staff yn cael mwy o foddhad mewn swydd o ganlyniad i'r hyfforddiant.

# Atodiad 1

## Sail dystiolaeth

Mae’r adroddiad hwn wedi’i seilio ar dystiolaeth o ymweliadau â sampl o ysgolion, craffu ar ddata a chanlyniadau arolygu o ysgolion rhwng 2010-2012. Fe wnaeth 76 o ysgolion a naw awdurdod lleol ddychwelyd holiadur i Estyn. Gwnaed dadansoddiad hefyd o ymchwil ddiweddar a pherthnasol, a chyhoeddiadau Estyn.

Roedd y sampl o 15 o ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg mewn ardaloedd gwledig a threfol. Cynhaliwyd ymweliadau â dau awdurdod lleol hefyd. Yr ysgolion a’r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â hwy oedd:

- Cyngor Sir Caerfyrddin;
- Cyngor Sir Wrecsam;
- Ysgol Abercaseg, Gwynedd;
- Ysgol Arbennig Greenfield, Merthyr Tudful;
- Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, Caerdydd;
- Ysgol Gyfun Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr
- Ysgol Gyfun Y Pant, Rhondda Cynon Taf;
- Ysgol Gymraeg Gyfun Gŵyr, Abertawe; ac
- Ysgol Gynradd Comins Coch, Ceredigion
- Ysgol Gynradd Tregwyr, Abertawe
- Ysgol Gynradd Llangynidr, Powys;
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir St Mark, Sir Benfro;
- Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Garw, Pen-y-bont ar Ogwr;
- Ysgol Iau Milton, Casnewydd;
- Ysgol Tan-yr-Eos, Caerdydd.
- Ysgol Uwchradd Bryngwyn, Sir Gaerfyrddin;
- Ysgol Uwchradd y Fflint, Sir y Fflint;

Yr ysgolion a’r awdurdodau lleol a ymatebodd i’r holiadur oedd:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Abertawe
- Cyngor Sir Caerdydd
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Ffederasiwn Dyffryn Ceiriog
- Ysgol Arbennig Court
- Ysgol Arbennig Portfield
- Ysgol Babanod a Meithrin Copperworks

- Ysgol Babanod a Meithrin Y Meads
- Ysgol Babanod y Porth
- Ysgol Bodfeurig
- Ysgol Bro Ddyfi
- Ysgol Bro Gwydir
- Ysgol Bryn Celynnog
- Ysgol Bryn Collen
- Ysgol Cedewain
- Ysgol Cefn Coch
- Ysgol Clywedog
- Ysgol Crug Glas
- Ysgol Cynwyd Sant
- Ysgol Dyffryn
- Ysgol Erw’r Delyn
- Ysgol Feithrin Cogan
- Ysgol G Aberaeron
- Ysgol Gwynedd
- Ysgol Gyfun Bro Myrddin
- Ysgol Gyfun Gorllewin Mynwy
- Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt
- Ysgol Gyfun Penglais
- Ysgol Gyfun Risga
- Ysgol Gyfun Sant Cyres
- Ysgol Gyfun Treforys
- Ysgol Gymraeg Rhydaman
- Ysgol Gymuned Llanfechell
- Ysgol Gynradd a Meithrin Maesglas
- Ysgol Gynradd Abertyswg
- Ysgol Gynradd Bryngwyn
- Ysgol Gynradd Capcoch
- Ysgol Gynradd Cefn Mawr
- Ysgol Gynradd Christchurch
- Ysgol Gynradd Cogan
- Ysgol Gynradd Cornist Park
- Ysgol Gynradd Drury
- Ysgol Gynradd Ewloe Green
- Ysgol Gynradd George Street
- Ysgol Gynradd Georgetown
- Ysgol Gynradd Glanhowy
- Ysgol Gynradd Gwndy
- Ysgol Gynradd Gymunedol Barker’s Lane
- Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands
- Ysgol Gynradd Llangynwyd
- Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr
- Ysgol Gynradd Penfro
- Ysgol Gynradd Pentrechwyth
- Ysgol Gynradd Priordy Monkton

- Ysgol Gynradd Radur
- Ysgol Gynradd Treforys
- Ysgol Gynradd y Bont-Faen
- Ysgol Gynradd yr Archesgob Rowan Williams
- Ysgol Heol Goffa
- Ysgol Iau Cyfarthfa
- Ysgol Iau Aberdaugleddau
- Ysgol John Bright
- Ysgol Maes Y Coed
- Ysgol Maes Y Mynydd
- Ysgol Merlyn
- Ysgol Neuadd Brynllywarch
- Ysgol St Christopher
- Ysgol Treferthyr
- Ysgol Tregarth
- Ysgol Tre-gib
- Ysgol Ty Coch
- Ysgol Uwchradd Caereinion
- Ysgol Uwchradd Castell Alun
- Ysgol Uwchradd Cyfarthfa
- Ysgol Uwchradd Llandrindod
- Ysgol Uwchradd Llysweri
- Ysgol Uwchradd Olchfa
- Ysgol Uwchradd Penarlâg
- Ysgol y Berwyn
- Ysgol Y Bont
- Ysgol Y Castell

# Atodiad 2

## Cyfeiriadau

### Cyhoeddiadau Estyn


- Adroddiad Blynyddol 2011-2012 (Estyn, 2013)
- Adroddiad Blynyddol 2010-2011 (Estyn, 2012)
- Arfarniad o effeithiolrwydd rhaglenni HMS cenedlaethol CBAC (Estyn, 2007)
- Sut gellir gwella cysylltiadau rhwng DPP, cynlluniau datblygu ysgolion, rheoli perfformiad a chodi safonau (Estyn, 2005)
- Effaith y rhaglen DPP ar athrawon, ysgolion a chodi gwella cyflawniad disgyblion (Estyn, 2007)


### Cyhoeddiadau eraill ac ymchwil


- The journey from self-evaluation to school improvement: the significance of effective professional development  Papur Ymchwil Cynhadledd AERA Bubb S ac Earley P (2008)
- Evaluating the Impact of Professional Development, adroddiad ymchwil ar gyfer AdAS Goodall J, Day C, Harris A, Lindsay G a Muiijs D (2005)
- Building the capacity for school improvement Harris A, (2001)
- The Logical Chain:  CPD in Effective Schools Ofsted, (2006)


## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Wendy Young AY | Awdur yr adroddiad cylch gwaith/tîm yr arolwg |
| Richard Lloyd AY | Tîm yr arolwg |
| Ray Owen AEM | Tîm yr arolwg |
| Jane Rees AEM | Tîm yr arolwg |